



Plentyn A

Bwriedir i'r astudiaethau achos hyn godi materion mewn cyd-destun ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau hollbwysig, yn enwedig ynghylch gwaith amlasiantaeth. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a chodi cwestiynau am atal o fewn sefyllfaoedd o gam-drin, esgeulustod a niwed hysbys. Maen nhw wedi'u crynhoi i gynorthwyo gyda'r broses hon, ond mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau adolygu go iawn.

Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Roedd Plentyn A yng ngofal yr Awdurdod Lleol pan gyflawnodd hunanladdiad dim ond tri mis cyn ei ben-blwydd yn 18. Roedd wedi bod yn byw gyda gofalwyr maeth ymroddedig ers pedair blynedd. Cyn ei farwolaeth, roedd Plentyn A wedi bod yn dioddef lefel uchel o ansicrwydd ynglŷn â'i gynllun tuag at annibyniaeth ac wedi amlygu pryderon sylweddol am yr hyn a fyddai'n digwydd ar ôl iddo droi'n 18 oed.

Amgylchiadau, a'r heriau a wynebwyd gan yr unigolyn

Roedd Plentyn A wedi'i osod yng ngofal yr awdurdod lleol yn dwy oed ar ôl dioddef cam-drin corfforol ac emosiynol difrifol ac esgeulustod. Fe'i rhoddwyd mewn gofal maeth a chafodd ddiagnosis o anhwylder ymlyniad. Nodwyd bod ei ymddygiad yn ymosodol ac yn heriol iawn. Mabwysiadodd y rhieni maeth Blentyn A (chwech oed) yn gyfreithiol ym mis Tachwedd 2005. Yn naw oed, ystyriwyd ei fod yn amlygu ymddygiad anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd, ac wrth iddo droi'n 10 oed, chwalodd y berthynas. Darparodd yr awdurdod lleol lety i Blentyn A, ond cadwodd y rhieni a oedd wedi'i fabwysiadu gyfrifoldeb rhiant.

Comisiynwyd asiantaeth cymorth mabwysiadu annibynnol i ddarparu asesiad cyfannol a manwl er mwyn nodi llwybr gofal ar gyfer Plentyn A.

Gydol ei flynyddoedd olaf, roedd gofalwyr maeth profiadol a chefnogol yn gofalu am Blentyn A, a gwnaethant ymrwymiad sylweddol iddo fel eu mab maeth. Pan oedd yn y lleoliad hwn, roedd yr adolygiad yn hyderus bod Plentyn A yn teimlo bod pobl yn gofalu amdano a'i eisiau.

Beth ddigwyddodd?

Dywedodd Plentyn A yn gyson wrth yr holl weithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud ag ef ei fod yn poeni am adael gofal. Nid oedd yn teimlo ei fod yn barod, ac roedd yn pryderu'n fawr am sefyllfa na allai ei rheoli ac nad oedd ganddo unrhyw atebion iddi. Mynegodd Plentyn A ei farn am fyw'n annibynnol mewn ffordd huawdl iawn, ar lafar a thrwy ei ymddygiad. Gofynnodd am y newidiadau i'r gyfraith yng Nghymru (o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gallai plant sy'n derbyn gofal aros gyda'u gofalwyr maeth ar ôl troi'n 18 oed (Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) yr oedd angen i'r awdurdod lleol ddatblygu cynllun ar eu cyfer). Heb atebion, ar ffurf cynllun llwybr cadarnhaol, effeithiol a digonol i alluogi Plentyn A i drosglwyddo'n llwyddiannus i fod yn oedolyn, nid oedd Plentyn A yn gallu byw gyda'r ofn, yr ansicrwydd a'r pryder a oedd yn deillio o hyn.



Pam y digwyddodd?

Roedd bywyd Plentyn A wedi'i gofnodi'n dda gydol ei oes gan ei fod wedi'i osod yng ngofal yr awdurdod lleol yn dwy oed. Fodd bynnag, er gwaetha'r ffaith ei fod wedi cael cymorth gan dîm bach a chyson yn gweithio ar sail ei gynllun gofal yn ystod ei flynyddoedd olaf, er gwaethaf eiriolaeth effeithiol mewn perthynas â'i ddatganiad addysgol ôl-16, ac er gwaethaf ei farn a'i bryderon a fynegwyd yn glir, nid oedd y wybodaeth a oedd ar gael wedi'i hystyried yn effeithiol gan weithwyr proffesiynol ym maes cynllunio gofal/llwybrau. Roedd yn ymddangos nad oedd y grŵp proffesiynol a oedd yn agosach na neb at Blentyn A yn meddu ar y grym i ddylanwadu ar benderfyniadau a fyddai wedi galluogi dull graddol o droi'n oedolyn.

Oherwydd diffyg asesiad anghenion ar sail tystiolaeth a diffyg cynllun llwybr ar gyfer Plentyn A ers ei fod yn 16 oed, gan gynnwys diffyg cyngor ac arweiniad cyfreithiol cadarn mewn perthynas â statws gadael gofal Plentyn A, a chamddealltwriaeth gwael o'r egwyddorion sy'n sylfaen i "Pan Fydda i'n Barod", methwyd cyfres o gyfleoedd i fod yn greadigol wrth ddatblygu llwybr Plentyn A i droi'n oedolyn a chreu cynllun a fyddai'n lleddfu ei ofnau.

O ganlyniad i fethu'r cyfle ar gyfer cynllunio ar y cyd yn yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal cyn ac ar ôl 16 oed, roedd diffyg cysylltiad rhwng cynllun gofal a oedd yn edrych ymlaen ac yn seiliedig ar brofiad bywyd Plentyn A. Yn benodol, roedd y dull o ymdrin â sgiliau ymarferol ar gyfer byw'n annibynnol yn seiliedig ar oedran cronolegol. Nid oedd yn cynnwys ystyriaeth briodol o'r asesiad anghenion addysgol arbennig ac anabledau o anawsterau Plentyn A o safbwynt ei weithrediad gwybyddol, emosiynol ac addysgol.

Yn ogystal â'r heriau ar gyfer gweithwyr proffesiynol i ddiwallu anghenion Plentyn A, cododd problemau cyfathrebu â'r rhieni a oedd wedi'i fabwysiadu. Roeddent yn awyddus iawn i weld eu mab yn derbyn y cymorth yr oedd arno ei angen yn eu barn nhw. Creodd hyn berthynas anodd rhwng y rhieni a gweithwyr proffesiynol ar adegau. Datblygodd barn broffesiynol a oedd yn ystyried bod Mr a Mrs A yn anodd i'w trin gan anwybyddu eu lefel ddealladwy o bryder am eu mab.

Roedd y materion penodol a oedd yn effeithio ar Blentyn A yn cynnwys: diffyg her gan y swyddog adolygu annibynnol, er gwaetha'r ffaith bod pob asiantaeth y tu allan i'r awdurdod lleol wedi edrych at ei gilydd i ddod o hyd i atebion ond wedi anwybyddu'r angen i ddatrys anghytuno proffesiynol gyda'r awdurdod lleol, sicrhau bod yr awdurdod lleol yn atebol, neu ofyn iddo weithredu. Roedd rôl y swyddog adolygu annibynnol yn hollbwysig ond methodd â throsglwyddo pryderon i lefel uwch. Collwyd y cyfle i herio cynnydd y camau y cytunwyd arnynt a'u huwchgwyfeirio er mwyn sicrhau ateb.

Argymhellion yr adroddiad

- 1. Gwelliannau mewn cynlluniau pontio i gynnwys:** Hyfforddiant awdurdod lleol ac amlasiantaethol ar gyfer asesiadau "Pan Fydda i'n Barod" seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn llywio cynlluniau gofal, fframwaith cyfreithiol ar gyfer plant mewn gofal. Cynnwys pobl ifanc yn y gwaith o ddarparu hyfforddiant a sicrhau ansawdd. Gweithredu systemau rheoli i gefnogi canllawiau ymarfer da ar gyfer "Pan Fydda i'n Barod"; canllawiau ymarfer da i sicrhau goruchwyliaeth benodol o ymarferwyr yn seiliedig ar lefel uchel o her a chymorth. Dangos tystiolaeth o her yr swyddog adolygu annibynnol i sicrhau canlyniadau da ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.



- 2. Gwelliannau o ran uwchgyfeirio a herio i gynnwys:** Archwiliad awdurdod lleol o effeithiolrwydd goruchwyliaeth; dull o gasglu sicrwydd ansawdd y swyddog adolygu annibynnol a chraffu ar waith cynllunio gofal; gwybodaeth am berfformiad sy'n olrhain canlyniadau da ar gyfer plant trwy adrodd yn well ar ddata; mecanwaith sicrwydd ar gyfer adolygu effeithiolrwydd gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu.
- 3. Gwelliannau i rianta corfforaethol i gynnwys:** defnyddio gwybodaeth am berfformiad amlasiantaethol i olrhain canlyniadau da ar gyfer plant yn yr awdurdod lleol a ledled partneriaethau amlasiantaethol; dull monitro i fesur effeithiolrwydd y polisi Datrys Anghytuno Proffesiynol.
- 4. Gwelliannau i gyfranogiad a llais y plentyn i gynnwys:** adolygiad o effeithiolrwydd gwasanaeth a gomisiynir yn rhanbarthol i eiriol dros blant sy'n derbyn gofal; pob asiantaeth? Adrodd i CYSUR ar sut mae llais y plentyn yn dylanwadu ar ei allu i sicrhau canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal, gan ystyried profiad byw'r plentyn; ystyried gwerth plant a phobl ifanc yn darparu hyfforddiant ac yn cymryd rhan mewn arferion sicrhau ansawdd ym mhob asiantaeth.

Cyfeiriadau

Griffiths, A. (2018) Extended child practice review: re: CYSUR 4/2017.
[Sir Benfro]: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru CYSUR.

www.safeguardingboard.wales/2018/06/19/mid-west-wales-extended-child-practice-review-report-child-a-01-2018/